

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 4ydd o FEDI 2017 YN SWYDDFA'R CYNGOR, NEUADD PONTIETS AM 7.00.**

**Presennol:** Ian Evans (yn y gadair), Alan Lewis, Heddwyn Jones, Tyssul Evans, Aled Williams, Tracey James, Margaret Rees, Linda Williams, Geraint Rosser a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Meic Bowen a Geoff Hewitt.

**Materion Personol**

**1774** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd a theulu'r diweddar Richard Thomas diolchwyd am ei wasanaeth arbennig a hir fel Cynghorwr Cymuned. Safodd pawb mewn arwydd o barch iddo. Penderfynwyd danfon rhodd o £250.00 tuag at Amman Gwendraeth District Nursing Fund er cof amdano.

Hefyd llongyfarchwyd Band Crwbin ar ennill yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn 2017.

**1775 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 03/07/2017 fel rhai cywir.

**1776 Materion yn codi.**

Tud 1. Cofnod Rhif 1753 - Rheilffordd Pontiets - Penderfynwyd cysylltu â'r Gwendraeth Valley Railway am ddiweddariad.

Tud 2. Cofnod Rhif 1766 - Toiledau'r Meinciau – Gobeithio y bydd y drysau newydd yn eu lle cyn bo hir.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**1777** Ffederasiwn C.Ff.I. Sir Gar - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

**Cynghorydd Alan Lewis – Cyn-gadeirydd yn y gadair**

*Cynghorwyr Ian Evans, Aled Williams, Geraint Rosser, Tyssul Evans a Tracey James yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y Cyfarfod*

**1778** Ysgol Gymunedol Carwe – Atgyweirio ardal allanol y Cylch Meithrin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £5160.00 o Gronfa Ffoslas.

*Ian, Aled, Geraint, Tyssul a Tracey yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

*Cynghorwyr Ian Evans, Aled Williams a Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y Cyfarfod.*

**1779** Clwb Pêl-droed Carwe - Casglwr Gwair - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £3420.00 o Gronfa Ffoslas.

*Ian, Aled a Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

**Cynghorydd Ian Evans – Cadeirydd yn y Gadair**

**1780** Clwb Pêl-droed Carwe - Llythyr yn diolch am y rhodd.

**1781** Bethel Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

- 1782** Urdd Gobaith Cymru (Sir Gar) – Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 1783** Pwyllgor Lles Parc Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 1784** Cylch Meithrin Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.
- 1785** Clwb Cyndeyrn – Noddi Calendr – Penderfynwyd danfon rhodd hyd at £50.00
- 1786** Neuadd Les Pontiets - Llogi'r Neuadd am De Angladd y Cynghorwr Richard Thomas - Penderfynwyd talu £14.00.

Gohebiaeth gyffredinol :-

- 1787** Cyngor Sir Gar – Adolygu'r Parciau – Penderfynwyd bod y Cyngor Sir yn gwneud y gwaith am £80.00 +TAW (y Parc)
- 1788** Clwb Pêl-droed Carwe - Gwahoddiad i'r Cadeirydd ar 02/09/17- .Nodwyd y Llythyr.

### **Ceisiadau Cynllunio**

- 1789** Ceisiadau Cynllunio
- a) Cais Rhif W/35810 – Mr. Greg Williams - Tir cyferbyn a Pererin, Carwe- Tŷ - Dim Gwrthwynebiad .

### **Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis**

- 1790** Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Gorffennaf ac Awst 2017. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

### **Adroddiad Ariannol Misol**

- 1791** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
- a)** Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Gorffennaf)
  - b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Gorffennaf)
  - c)** Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £100.00 (Mis Gorffennaf)
  - ch)** HMRC (Treth)- £77.60 (Mis Gorffennaf)
  - d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Gorffennaf)
  - dd)** BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Gorffennaf)
  - e)** Auto Enrolment - £100.00
  - f)** Morgan & Morgan (Papur)- £14.94
  - ff)** Ciran Griffiths – Gwaith ym Marc Carwe - £60.00
  - g)** Mark Rees – Scalps - £233.70
  - Ng)** Justin Gravell \_ Gwaith yn y Plwyf - £1291.00
  - h)** Dwr Cymru – Toiledau'r Meinciau - £43.46
  - i)** Stampiau - £21.24
  - l)** Cyflog y Clerc - £388.61 (Mis Awst)
  - m)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Awst)
  - n)** Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £100.00 (Mis Awst)
  - o)** HMRC (Treth) - £77.70 (Mis Awst)
  - p)** Ffon Symudol y Cyngor – £9.98 (Mis Awst)
  - Ph)** BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Awst)

### **Marwolaeth Cynghorwr**

**1792** Cafwyd adroddiad gan y Clerc ei fod wedi cysylltu â'r Cyngor Sir yn dilyn marwolaeth sydyn y diweddar Gynghorwr Richard Thomas. Mae'r Hysbysiad am y Swydd Wag yn cau ar 18/09/2017.

**Materion Cynghorwyr**

**1793 Heddwyn** – Diolch i'r Cyngor Sir am eu gwaith yn trin y cloddiau trwy'r Plwyf.

**Cyfarfod nesaf:- 2 o Hydref 2017 yn Neuadd yr Eglwys, Llangyndeyrn am 7.00 o'r gloch.  
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

**Dyddiad.....**